| CYNGOR SIR YNYS MÔN |
|---|

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD | 14 MEDI 2010 |
| TEITL YR ADRODDIAD | YNYS YNNI – ARBENIGEDD ALLANOL YCHWANEGOL |
| ADRODDIAD | PENNAETH DATBLYGU ECONOMAIDD |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | ADRODD AR Y RHESWM DROS DRAFOD YR ADRODDIAD AR YR YNYS YNNI FEL MATER O FRYS (Paragraff 4.5.16.10 y Cyfansoddiad) |
| GWEITHREDU | DERBYN YR ADRODDIAD |

Ar 15 Mehefin fe gyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith (fel Eitem Gyfrinachol) ynglŷn â chael arbenigedd allanol ychwanegol am ddarn o waith oedd yn cael ei wneud gan gynghorwyr a gontractiwyd i wneud gwaith ar Ynys Ynni.

Fe ofynnwyd, yn unol â'r Cyfansoddiad (paragraff 4.5.16.10), a hynny oherwydd yr angen i ddelio gyda'r penderfyniad fel mater o frys, na fyddai'r adroddiad yn destun galw i mewn. Fe drafodwyd hyn a chafwyd cytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a'r Deilydd Portffolio. Roedd hynny wedyn yn gofyn am adrodd am y rhesymau dros gymryd yr adroddiad fel mater o frys, i'r Cyngor llawn.

Y rhesymau dros ddelio gyda'r adroddiad fel mater o frys yw:

1. Roedd yr ymgynghorwyr eisoes yn gweithio ar adroddiad Ynys Ynni ac roedd angen gwybodaeth bellach fyddai mynd â hwy y tu hwnt i ddyddiad olaf eu contract gwreiddiol.
2. Roedd yn bwysig defnyddio'r arbenigedd ymgynghori oedd wedi bod yn gweithio ar y prosiect ers nifer o fisoedd er mwyn sicrhau mwy o ddeilliannau.

Argymhelliad

i) Nodi'r rhesymau uchod dros gymryd yr adroddiad Ynys Ynni ar 15 Mehefin fel mater o frys yn unol â'r Cyfansoddiad (paragraff 4.5.16.10)
ii) Cymeradwyo'r uchod.